# NODIADAU CYFARWYDDYD ALLANOL

## Cronfa Refeniw Cerddoriaeth 2 (MRF2)

**Nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer gwneud cais am grant**

Bwriad y nodiadau cyfarwyddyd hyn yw eich helpu i lenwi'r cais am gyllid ar gyfer Cronfa Refeniw Cerddoriaeth Cymru Greadigol 2 (MRF2).

Lansio MRF2: **Dydd Llun 24 Mehefin 2024**
Dyddiad cau MRF2: **Dydd Llun 22 Gorffennaf 2024 am 12:00 hanner dydd**

**Cymru Greadigol - Cyd-destun Strategol**

Mae'r Diwydiannau Creadigol yn rhan bwysig o economi Cymru, gan greu swyddi a chyfoeth, cyfrannu at frand cenedlaethol cryf a hyrwyddo Cymru yn y byd. Mae Cymru Greadigol yn asiantaeth fewnol yn Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd yn benodol i gefnogi twf y diwydiannau creadigol yng Nghymru ymhellach ac i gynnig gwasanaeth syml, deinamig ac arloesol i'r sector.

Mae'r diwydiant cerddoriaeth wedi cael ei nodi fel is-sector blaenoriaeth allweddol, ac mae rhaglen o gefnogaeth i'r diwydiant cerddoriaeth yn cael ei darparu, neu ei datblygu, y mae'r MRF2 yn elfen bwysig ohoni.

**Pwrpas y Gronfa**

Mae busnesau cerddoriaeth yn llwyfan allweddol ar gyfer datblygu, meithrin a thyfu talent ym myd cerddoriaeth. Nod y gronfa yw annog prosiectau refeniw Cerddoriaeth a fyddai'n elwa o gefnogaeth, oherwydd cyfyngiadau ariannol.

Pwrpas yr MRF2 yw i fusnesau cerddoriaeth wneud cais am gyllid i gefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo'r gwaith y maent eisoes yn bwriadu ei wneud neu y byddent yn ei wneud pe na bai am gyfyngiadau ariannol. Byddwn yn chwilio am dystiolaeth ar sut y bydd hyn yn gwella rhagolygon masnachol a chynaliadwyedd ymgeiswyr; ac o ganlyniad, yn cyfrannu at ddatblygiad a thwf y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru.

Rydym yn dymuno annog amrywiaeth eang o brosiectau ac er nad ydym yn dymuno bod yn rhy gyfarwyddol rydym yn annog ceisiadau sy'n dod o dan un o'r meysydd pwnc eang canlynol:

- Ymgyrchoedd cyhoeddiadau newydd
- Hyrwyddo Cerddoriaeth fyw
- Cysoni a Chatalogio Cerddoriaeth
- Cerddoriaeth Gymraeg

## Pwy all wneud cais?

Bydd angen i ymgeiswyr ddangos mai eu prif swyddogaeth yw gweithio gyda cherddorion ar hyrwyddo, cysoni neu gyhoeddi cerddoriaeth wedi'i recordio o natur fasnachol. Gall y gerddoriaeth sy'n cael ei chynnal, ei recordio, ei hymarfer neu ei hyrwyddo gan y busnes ddod o'r sbectrwm llawn o genres cerddoriaeth boblogaidd cyfoes (electronig; hip-hop; indie ac amgen; metel a phync; pop; roc; ac ati).

**Ni** fyddai busnesau sy'n cynnal/hyrwyddo cerddoriaeth glasurol neu jazz yn bennaf yn gymwys ar gyfer y gronfa hon, gan fod cefnogaeth i'r genres hyn ar gael mewn mannau eraill (gyda Chyngor Celfyddydau Cymru yn bennaf). Os nad ydych chi'n siŵr a ydych chi'n gymwys ai peidio, cysylltwch â ni a byddwn ni'n fwy na pharod i drafod hyn.

Ni allwn gefnogi ceisiadau gan fandiau unigol. Ar ben hynny, dim ond y perchnogion sy'n gyfrifol am redeg y busnes fydd yn gymwys i wneud cais am y cyllid hwn.

- Rhaid i ymgeiswyr fod yn gweithio yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru.
- Rhaid i ymgeiswyr fod wedi'u lleoli yng Nghymru ac yn gweithredu yng Nghymru.
- Rhaid i'r busnes fod wedi bod yn masnachu cyn 1 Ebrill 2023 ac yn parhau i fasnachu (tystiolaeth o gyfrifon ariannol o'r cyfnod ariannol diwethaf) a bod ganddo drosiant blynyddol o dros £50,000 y flwyddyn.
- Os yw trosiant y busnes yn fwy na £90,000, rhaid i'r busnes fod wedi cofrestru ar gyfer TAW neu fod wedi'i eithrio rhag TAW. Mae manylion yr eithriad TAW ar gael yn: https://www.gov.uk/guidance/vat-exemption-and-partial-exemption

### Unig Fasnachwyr / Partneriaethau – Meini Prawf Cymhwysedd Ymgeiswyr

- Gall unig fasnachwyr nad ydynt yn cyflogi unrhyw staff eraill wneud cais cyn belled â'u bod yn bodloni'r holl feini prawf eraill. I gefnogi eu cais, bydd gofyn i'r ymgeiswyr hyn gyflwyno copi o'u Ffurflen Hunanasesu ddiweddaraf sy'n dangos yr enillion a'r dreth sy'n ddyledus, a thystiolaeth bod y taliad wedi'i wneud.
- Rhaid i chi dalu cyflogeion drwy TWE o 1 Ebrill 2023 ymlaen.
- Os mai dim ond 1 person ydych chi'n ei gyflogi, rhaid talu hwn drwy'r cynllun Talu Wrth Ennill.
- Sylwch fod yn rhaid i'r 1 gweithiwr fod yn Gyfwerth ag Amser Llawn (FTE) a gweithio o leiaf 30 awr yr wythnos. Gall hyn gynnwys staff rhan amser ond rhaid iddo fod yn gyfwerth ag o leiaf 1 FTE h.y. rhaid i gyfanswm yr oriau y mae gweithwyr rhan-amser yn eu gweithio'n rheolaidd gyfateb i 30 awr neu fwy yr wythnos.
- Nid ydym yn cefnogi defnyddio contractau dim oriau mewn modd annheg. Pan fydd y rhain yn cael eu defnyddio, ni ddylid eu gosod yn unochrog, a dylid cynnig contract oriau gwarantedig i weithwyr.

## Cwmni Cyfyngedig – Meini Prawf Cymhwysedd Ymgeiswyr

- Rydych chi'n gwmni Cyfyngedig o 1 Ebrill 2023 ymlaen.
- Rydych chi'n cyflogi rhwng 1 a 249 o weithwyr drwy TWE o 1 Ebrill 2024 ymlaen.
- Os mai dim ond 1 person ydych chi'n ei gyflogi, gall hwn fod yn berchennog y busnes, ond rhaid iddo gael ei dalu drwy TWE.
- Sylwch fod yn rhaid i'r 1 gweithiwr fod yn Gyfwerth ag Amser Llawn (FTE) a gweithio o leiaf 30 awr yr wythnos.  Gall hyn gynnwys staff rhan amser ond rhaid iddo fod yn gyfwerth ag o leiaf 1 FTE h.y. rhaid i gyfanswm yr oriau y mae gweithwyr rhan-amser yn eu gweithio'n rheolaidd gyfateb i 30 awr neu fwy yr wythnos.
- Nid ydym yn cefnogi defnyddio contractau dim oriau mewn modd annheg. Pan fydd y rhain yn cael eu defnyddio, ni ddylid eu gosod yn unochrog, a dylid cynnig contract oriau gwarantedig i weithwyr.

## Rheolau cyffredinol eraill y gronfa

- Mae mentrau cymdeithasol yn gymwys, ond rhaid bodloni'r meini prawf uchod a amlinellir ar gyfer Unig Fasnachwyr oni bai eich bod yn gorfforedig, ac os felly bydd y meini prawf ar gyfer cwmnïau cyfyngedig yn berthnasol.
- Grant refeniw yw hwn, ac ni chaniateir unrhyw gostau cyfalaf o swm y grant.
- Os cynigir dyfarniad, rhaid i ymgeiswyr gwblhau eu prosiect yn llawn a chyflwyno eu hawliad gyda'r dystiolaeth ofynnol o wariant a dalwyd erbyn 28 Chwefror 2025.
- Dim ond un cais y gellir ei wneud fesul busnes.
- Mae perchnogion neu gyfarwyddwyr unigol wedi'u cyfyngu i wneud un cais i'r gronfa ni waeth faint o fusnesau y maent yn berchen arnynt.
- Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithgareddau penodol sy'n debygol o achosi dadlau ynghylch defnydd priodol o arian cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys busnesau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo, (1) dibenion pleidiol gwleidyddol; (2) hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol penodol; (3) gamblo; (4) pornograffi; (5) cynnig gwasanaethau rhywiol; (6) unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithlon; neu (7) unrhyw fath o weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri ar Lywodraeth Cymru.
- Rhaid i fusnesau a gefnogir barhau i fasnachu a chynnal swyddi sydd ar waith adeg gwneud cais, y tu hwnt i 1 Ebrill 2025.
- Rhaid i geisiadau gael eu cyflwyno gan berchennog y busnes ac nid gan asiantau sy'n gweithredu ar eu rhan. Bydd ceisiadau a gyflwynir gan asiant ar ran busnesau yn cael eu gwrthod.
- Ni fydd busnesau masnachfreintiau yn cael eu cefnogi drwy'r gronfa hon.
- Ni fydd unrhyw brosiect sy'n cynyddu ôl troed carbon busnes yr ymgeisydd yn cael ei gefnogi drwy'r gronfa hon.
- Ni fydd unrhyw brosiect sy'n arwain at ddiswyddo staff yn cael ei gefnogi drwy'r gronfa hon.
- Nid ydym yn cefnogi defnyddio contractau dim oriau mewn modd annheg. Pan fydd y rhain yn cael eu defnyddio, ni ddylid eu gosod yn unochrog, a dylid cynnig contract oriau gwarantedig i weithwyr.

**Am beth alla i wneud cais?**

Rhaid i'r cais am gyllid fod yn gysylltiedig â phrosiect sy'n mynd tuag at wella rhagolygon masnachol busnes/hyrwyddwr/artist a bydd angen i'r cyllid refeniw cysylltiedig ddod o dan y prif gategorïau cyffredinol a restrir uchod.

- Mae prosiect yn cael ei ystyried yn weithgaredd â therfyn amser, gyda dyddiad dechrau a dyddiad gorffen clir.
- Rhaid i geisiadau fod yn werth da am arian a fydd yn rhan o'r asesiad. Gwnewch gais am yr hyn sydd ei angen arnoch yn unig ac nid yr uchafswm oni bai fod angen y swm uchaf arnoch.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o wariant cymwys; fodd bynnag, rydym yn awyddus i dderbyn prosiectau arloesol ac yn cydnabod y gallai fod costau eraill y gellid eu cynnwys. Rydym yn hapus i drafod y rhain cyn i chi gyflwyno eich cais er mwyn rhoi rhagor o gyngor i chi ar gymhwysedd.

Dylai ymgeiswyr roi manylion y cyhoeddiad neu'r cyhoeddiadau sydd wedi'u trefnu gyda dyddiadau cyhoeddi wedi'u cynllunio, yn yr un modd, bydd angen dyddiadau ar gyfer unrhyw gigs/teithiau cerddoriaeth fyw a phrosiectau cysoni a chatalog. Gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer unrhyw beth sy'n ofynnol ar ben yr hyn y byddai'r ymgeisydd eisoes yn ei ddarparu, a all gynnwys hynny, ond heb fod yn gyfyngedig iddo.

- Ymgyrch cyhoeddi ar gyfer un/EP neu albwm
- Prosiectau sy'n cynnwys hyrwyddo gigs/teithiau cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio
- Cynyddu cyfleoedd yn y diwydiant cysoni
- Manteisio i'r eithaf ar gerddoriaeth wedi'i chatalogio gan artistiaid
- Archebu, rhaglennu a hyrwyddo gigs, cyngherddau, nosweithiau clwb, arddangosfeydd, teithiau, datganiadau a pherfformiadau eraill
- Costau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny (gan gynnwys llogi lleoliad, cynhyrchu, ffioedd artistiaid a/neu DJ, ffioedd criwiau, costau gweinyddol a chostau cysylltiedig eraill)
- Meithrin gallu (gan gynnwys mentora, hyfforddi, cysgodi, gweithdai, dosbarthiadau meistr, a chyfleoedd eraill i feithrin sgiliau a rhwydweithio)
- Gwariant arall sy'n helpu derbynwyr grant i raglennu amrywiaeth eang o artistiaid, datblygu cynulleidfaoedd newydd a datblygu eu sgiliau
- Amser stiwdio ychwanegol
- Cerddorion Sesiynau
- Costau cynhyrchu/cymysgu/meistr
- Gwaith celf
- Teithiau hyrwyddo
- Nwyddau/copïau ffisegol o gerddoriaeth
- Hyrwyddo/CC/Marchnata
- Cyflogau staff sy'n gysylltiedig â'r prosiect
- Hyfforddiant yn ymwneud â Datblygiad Proffesiynol Parhaus
- Talu am artistiaid cefnogi/peirianwyr sain ac ati

Byddem yn disgwyl gweld y costau y gofynnir amdanynt yn cael eu defnyddio, lle bo hynny'n bosibl, ar unigolion Cymraeg neu yng Nghymru. Os nad yw hyn yn bosibl, esboniwch pam.

**Am beth na allwch chi wneud cais**

Ni ellir defnyddio'r grant ar gyfer y canlynol:

- Unrhyw gostau cyfalaf;
- Costau dechrau busnes, e.e. offer a gofod swyddfa, costau recriwtio ac ati;
- Costau a gododd cyn dechrau dyfarnu'r cyllid (llythyr cynnig wedi'i lofnodi a dderbyniwyd gennym ni).
- Talu dyled bresennol (cyn 1 Ebrill 2024);
- TAW adferadwy;
- Costau a ariennir o ffynonellau cyllid cyhoeddus eraill;
- Swm i dalu am incwm a gollwyd neu i ail-lenwi eich cronfeydd wrth gefn;
- Cyfraddau busnes;
- Ffioedd cyfreithiol;
- Costau dileu swyddi;
- Unrhyw fath o weithgaredd a allai ddwyn anfri ar Lywodraeth Cymru yn ein barn ni;
- Costau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo achos credoau sefydliadau gwleidyddol neu ffydd;
- Prosiectau sy'n dibynnu ar lafur rhydd, neu sy'n annog hynny
- Cyllid mewn nwyddau. Mae cyllid mewn nwyddau fel arfer yn cyfeirio at gyfraniadau anariannol a chymorth o ffynonellau eraill.

Ar ben hynny, ni ellir defnyddio cyllid i reoli a chydbwyso cyfrifon o fewn gwahanol weithrediadau'r un busnes. Er enghraifft, os yw cwmni'n rhedeg un cyfrif ar gyfer rheoli artistiaid/cyhoeddiadau, ac un arall ar gyfer gweithredu lleoliad.

Ni fydd y gronfa'n talu costau sydd wedi'u cyflawni o'r blaen neu sy'n cael eu cefnogi ar hyn o bryd gan gronfeydd cyhoeddus eraill.

Ni ellir defnyddio'r gronfa chwaith fel arian cyfatebol ar gyfer cais arall am gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal, ni ellir gwneud ceisiadau gan fusnesau sydd wedi'u clustnodi i'w cau, neu sydd â risg uchel o gael eu cau. Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus aros yn weithredol am o leiaf 12 mis ar ôl derbyn unrhyw gyllid. Os yw busnes yn cael ei werthu neu ei ail-bwrpasu, mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i adennill unrhyw gyllid sydd wedi cael ei ddarparu.

Bydd angen i bob cais gyflwyno cyfrifon busnes perthnasol fel rhan o'r broses ymgeisio. Bydd yr wybodaeth a nodir yma, ac mewn dogfennau perthnasol eraill, yn cael ei defnyddio i benderfynu a yw'r busnes yn anghymwys i gael cyllid o ganlyniad i'w amgylchiadau ariannol.

## Faint allwch chi wneud cais amdano?

Gall ymgeiswyr ofyn am rhwng £20,000 a £40,000. Fel rhan o'ch cais, bydd gofyn i chi gyflwyno tystiolaeth bod gennych unrhyw arian cyfatebol ar waith adeg gwneud y cais.

Gwneir dyfarniadau o dan y gronfa yn unol â Threfn Isafswm Cymorth Ariannol (MFA) (Deddf Rheoli Cymhorthdal) (2022) a bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gadarnhau drwy ddatganiad wedi'i lofnodi, na fyddai unrhyw ddyfarniad a wneir o dan y gronfa hon yn fwy na £315,000 o gyfanswm y cymorth MFA a gronnir gan yr ymgeisydd/busnes dros y ddwy flynedd ariannol flaenorol.

## Sut bydd y broses ymgeisio yn gweithio?

### Y Broses Ymgeisio

Bydd y Cais hwn am gynigion cyllido yn dechrau ddydd Llun 24 Mehefin 2024 a bydd yn cau i geisiadau am hanner dydd ddydd Llun 22 Gorffennaf 2024. Ni dderbynnir unrhyw geisiadau hwyr.

Cyn i chi wneud cais, mae gennych chi'r opsiwn i drafod eich cynnig gydag un o Reolwyr Datblygu Sector Cymru Greadigol drwy e-bost yn CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru.

Bydd ceisiadau ar gyfer MRF2 yn cael eu gwneud gan ddefnyddio Ffurflen Gais MRF2 y bydd angen ei chyflwyno i Cymru Greadigol ar ôl ei llenwi, ynghyd â dogfennau ategol perthnasol (e.e. cyfrifon ariannol a chyfriflenni banc ar gyfer y 3 mis blaenorol i wirio bod y busnes yn masnachu'n weithredol ac fel tystiolaeth o lif arian digonol).

Bydd y cyfnod cyllido cymwys yn cynnwys y dyddiad cymeradwyo ar y llythyr cynnig tan 28 Chwefror 2025. Efallai y byddwn hefyd yn ystyried ychydig bach o wariant ar brosiectau sy'n ymestyn i flwyddyn ariannol 2025/26 ond mae'r gronfa hon yn canolbwyntio ar wariant prosiect yn 2024/25.

Mae gan Lywodraeth Cymru ddisgresiwn llwyr o ran hyd a thelerau'r gronfa.

### Y ffurflen gais

Mae'r ffurflen gais wedi'i rhannu i 6 adran:

**Adran 1 – Manylion yr ymgeisydd**

Yn yr adran hon, rhaid i chi ddarparu manylion unrhyw swyddi ar adeg y ceisiadau a'r rhai y rhagwelir y byddant yn cael eu diogelu neu eu creu o ganlyniad i'r cyllid grant hwn.

**Adran 2 – Manylion y prosiect**

Yn yr adran hon, rhaid i chi egluro eich prosiect arfaethedig, pa effaith y bydd y prosiect yn ei chael ar y busnes a sut y bydd yn helpu i gefnogi cynaliadwyedd eich busnes.

Bydd gofyn i chi egluro'r cyhoeddusrwydd a'r dulliau marchnata arfaethedig i'ch cynnig a sut y cânt eu gweithredu. Rhaid i chi hefyd gadarnhau sut bydd y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn eich prosiect a sut bydd yn cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y nodir yn Cymraeg 2050.

Gofynnir i chi hefyd ddangos sut bydd eich prosiect yn cyd-fynd ag Addewidion Contract Economaidd a Pholisi Gwaith Teg Llywodraeth Cymru.

Mae 4 addewid sy'n ffurfio'r Contract Economaidd, ac yn yr adran hon, mae'n rhaid i chi egluro sut mae eich busnes yn cyd-fynd â 2 neu fwy o'r addewidion hyn. I'ch helpu i ddeall addewidion Contract Economaidd, ewch i Y Contract Economaidd â Busnes Cymru (llyw.cymru).

Yn ogystal â'r adran ar Addunedau Economaidd, mae'r adran hon yn gofyn am eglurder ac ymrwymiad ar eich arferion gwaith teg. Ystyr gwaith teg yw amodau amlwg yn y gwaith sy'n nodi bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, eu clywed a'u cynrychioli'n deg, yn ddiogel ac yn gallu symud ymlaen mewn amgylchedd gwaith iach a chynhwysol lle mae hawliau'n cael eu parchu.

Bydd y camau a gymerir gan sefydliad wrth fynd ar drywydd gwaith teg yn dibynnu ar amgylchiadau penodol y sefydliad hwnnw. Efallai na fydd rhai camau gweithredu'n briodol nac yn ymarferol i bob sefydliad, mater i bob sefydliad yw penderfynu pa gamau gweithredu.

Ewch i Canllaw i waith teg | LLYW.CYMRU am ragor o wybodaeth i'ch helpu i lenwi adran hon y cais.

Rydym hefyd yn gofyn i chi ddisgrifio amserlen y prosiect, yr adnoddau sydd eu hangen ac unrhyw risgiau cysylltiedig a beth allwch chi ei wneud i liniaru'r rhain.

**Adran 3 – Gwybodaeth Ariannol**

Yn yr adran hon, bydd angen i chi roi manylion am gostau'r prosiect, ffynhonnell eich arian cyfatebol a faint o gyllid sydd ei angen arnoch i alluogi'r prosiect i fynd yn ei flaen er mwyn i ni allu penderfynu ar hyfywedd y prosiect. Cofiwch mai dim ond y swm lleiaf sydd ei angen arnoch i roi'r prosiect ar waith y gallwch wneud cais amdano, a bydd gofyn i chi lofnodi datganiad yn nodi hyn, cyn cyflwyno eich cais.

**Adran 4 – Marchnata, cyhoeddusrwydd a'r Iaith Gymraeg**

Yn yr adran hon bydd angen i chi ddarparu manylion ynghylch pa gyhoeddusrwydd fydd yn cael ei gynnwys yn y prosiect. Bydd angen i chi hefyd gadarnhau sut bydd y Gymraeg yn cael ei chynnwys ac a fydd yn cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y nodir yn Cymraeg 2050.

**Adran 5 – Rhestr wirio ar gyfer yr wybodaeth ofynnol**

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cynnwys yr holl ddogfennau angenrheidiol yn ogystal â'r ffurflen gais.

**Adran 6 – Datganiadau**

Mae'n bwysig iawn eich bod wedi darllen y ddogfen ganllaw hon ac yn deall y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r cais hwn am Grant gan fod hyn yn rhan o'r contract rhyngoch chi a Llywodraeth Cymru.

Os ydych chi'n cytuno â'r telerau ac amodau yn y ddogfen hon a'ch bod yn gallu cadarnhau bod yr wybodaeth a nodir yn y cais yn wir ac yn gywir, yna rhaid i chi dicio'r blwch a chyflwyno eich cais.

Mae hwn yn grant cystadleuol ac felly mae'r adran hon yn rhan bwysig iawn o'r cais gan y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a nodwch yma i sgorio hyfywedd ac effaith eich prosiect.

Ar ôl ei llenwi, cliciwch i gyflwyno eich ffurflen gais a'r dogfennau ategol i ni drwy CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru.

Dylai ymgeiswyr nodi y gallai ceisiadau sydd â data anghyflawn neu anghywir neu rai nad ydynt yn cynnwys y dogfennau ategol gofynnol **gael eu gwrthod**.

Ni ddylech ddechrau ar y prosiect nes bydd eich cais wedi'i gymeradwyo, a bod llythyr cynnig wedi'i gyhoeddi. Os byddwch yn gwneud hynny, efallai y byddwch yn gwneud eich cais yn gwbl annilys, hyd yn oed os byddwch yn llwyddiannus.

**Gwerthuso'r Prosiect**

Caiff cyllid gan Cymru Greadigol ei ddyrannu i geisiadau sy'n cyd-fynd â'n hegwyddorion allweddol, fel y nodir yn y tabl isod. Er na fyddem yn disgwyl i brosiectau unigol gyflawni'n uniongyrchol yn erbyn pob un o'r rhain, mae'n rhaid i brosiectau gyflawni yn erbyn meini prawf penodol y cynllun hwn, a bydd prosiectau sy'n cael eu targedu'n uniongyrchol at y meysydd hyn yn cael blaenoriaeth. Felly, dylai eich cais gael ei deilwra i ddangos lle mae'r rhain yn cael eu bodloni;

| **Egwyddorion allweddol cyllid gan Cymru Greadigol :** |
|---|
| Dylai'r cyllid a gaiff ei ddyfarnu i fusnesau sicrhau'r canlynol: |
| **Cydweddiad Strategol**<br>Cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru - Bydd cyllid yn cael ei gynllunio i gyflawni uchelgeisiau Cymru Greadigol ar gyfer y diwydiannau creadigol, a'r blaenoriaethau a nodir yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Bydd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau a thalent, amrywiaeth a chynhwysiant yn ei ystyr ehangaf, gwaith teg, cynaliadwyedd, a hyrwyddo ein diwylliant a'r iaith Gymraeg. Bydd cyllid yn cael ei flaenoriaethu i'r prosiectau hynny sy'n gwneud gwahaniaeth i dirwedd y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn y tymor canolig i'r tymor hir |
| **Manteisio i'r eithaf ar y manteision i Gymru, gan gynnwys manteision economaidd** Bydd Cyllid yn cael ei dargedu at brosiectau sy'n sicrhau'r elw mwyaf posibl ar fuddsoddiad, er mwyn sicrhau bod cyllidebau cyfyngedig yn sicrhau'r gwerth gorau posibl i Gymru. |

Ar ôl i ni dderbyn eich cais wedi'i gwblhau, a phan fydd yr alwad wedi dod i ben, byddwn yn cynnal archwiliadau a gwerthusiadau o'r holl brosiectau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn yr alwad. Byddwn yn ceisio rhoi gwybod i bob ymgeisydd am ganlyniad ein penderfyniadau cyn gynted â phosibl ar ôl dyddiad cau'r alwad.

Bydd pob prosiect yn cael ei werthuso mewn dau gam:

- **Cam cyntaf** – bydd archwiliadau'n cael eu cynnal i sicrhau bod yr holl feini prawf cymhwysedd sylfaenol wedi cael eu bodloni yn Atodiad 1, gan gynnwys cysoni'r prosiect â'n prif egwyddorion cyllido fel yr amlinellir yn y tabl uchod. Bydd ceisiadau / prosiectau nad ydynt yn bodloni'r holl wiriadau cymhwysedd neu nad ydynt yn bodloni ein hamcanion strategol ar gyfer cyllid, yn cael eu gwrthod.

- **Ail gam** – Bydd ceisiadau sydd wedi bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd uchod ac sy'n cyd-fynd â'n hegwyddorion cyllido allweddol, yn cael eu gwerthuso yn unol â'r meini prawf gwerthuso yn Atodiad 2. Mae hwn yn gynllun cystadleuol ac felly oherwydd y gyllideb sydd ar gael, dim ond y prosiectau sy'n cael y sgoriau uchaf fydd yn cael eu cefnogi.

Bydd Diwydrwydd Dyladwy yn cael ei gynnal ar bob cais. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'ch rhagamcanion ariannol, archwiliad twyll, a gwiriadau ar Gyfarwyddwyr eich cwmni. Os ydych chi'n ymwneud â busnes sydd mewn dyled i Lywodraeth Cymru, mae'n annhebygol y byddwch yn gallu gwneud cais am ragor o gyllid a dylech drafod hyn gyda ni cyn gwneud unrhyw gais.

Bydd ceisiadau llwyddiannus yn cael llythyr Cynnig Grant sy'n amlinellu'n fanylach y telerau a'r amodau sy'n ymwneud â'n cynlluniau grant, a manylion sy'n berthnasol i'r MRF2 yn unig. Ar ôl ei dderbyn, bydd angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn ei lofnodi a'i ddychwelyd atom cyn gynted â phosibl, ac ar ôl iddynt fod yn fodlon â'r telerau a'r amodau a amlinellir yn y cynnig grant.

Bydd dyfarniadau'n cael eu cadarnhau erbyn dydd Gwener 13 Medi 2024 fan bellaf, ond mae'r amseru hwn yn dibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law. Ni fydd ymholiadau ynghylch cynnydd gyda cheisiadau yn cael ymateb.

Byddwn yn cytuno gyda'r ceisiadau llwyddiannus ar yr amserlenni a'r dyddiadau cau ar gyfer cyflawni a chwblhau eu prosiect, ynghyd ag amserlen dalu.

Bydd cyflawniad yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt yn parhau i gael ei gofnodi am hyd at 12 mis ar ôl cwblhau'r prosiect a bydd yn amod o'r cynnig grant.

Fel rhan o'n cefnogaeth, bydd disgwyl i bob cais ddarparu gwybodaeth barhaus sy'n ymwneud ag adborth i ni bob mis i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ein cronfa ddata busnes cerddoriaeth fyw. Mae ffurflen adrodd safonol wedi cael ei datblygu gan Cymru Greadigol a bydd yn cael ei darparu i ymgeiswyr llwyddiannus yn ystod y cam cynnig cyllid i'w defnyddio i gasglu'r data angenrheidiol ar gyfer adrodd i ni hyd at 12 mis ar ôl oes MRF2.

**Allbynnau a chanlyniadau**

Bydd y cyllid yn canolbwyntio ar nifer o allbynnau a chanlyniadau allweddol, gan gynnwys:

- Twf y busnes a/neu'r sector Cerddoriaeth
- Nifer y cerddorion a gefnogwyd
- Nifer y swyddi a gafodd eu diogelu / creu
- Nifer yr unigolion / gweithwyr llawrydd a gafodd eu cefnogi
- Cynnydd mewn lefelau sgiliau
- Cyfleoedd i wella amrywiaeth
- Cyfleoedd i wella cynaliadwyedd
- Mwy o gyfleoedd i staff

Gofynnir i ymgeiswyr ddewis allbynnau perthnasol wrth wneud cais, a nodir y rhain ar y llythyr cynnig.

**Cymeradwyo Prosiect**

- Bydd yr holl gynigion a aseswyd yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru i'w cymeradwyo'n derfynol.
- Ar ôl i'r Gweinidog ystyried, bydd yr ymgeiswyr yn cael gwybod am y penderfyniad terfynol a bydd llythyrau cynnig yn cael eu hanfon at yr ymgeiswyr llwyddiannus
- Bydd angen llofnodi llythyrau cynnig a dychwelyd un copi i Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r prosiect.
- Gofynnir i ymgeiswyr llwyddiannus gofrestru ar gyfer Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru:Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

**Apelau**

Mae MRF2 yn gronfa ddewisol heb unrhyw broses apelio benodol. Byddwn yn rhoi gwybod am geisiadau aflwyddiannus yn dilyn ein penderfyniad. I'ch atgoffa, mae hon yn gronfa gystadleuol gyda chyllideb gyfyngedig felly bydd pob prosiect yn cael ei asesu a'i sgorio gyda dim ond y prosiectau sy'n cael y sgoriau uchaf yn cael eu cefnogi.

**Terfyn amser**

Bydd y gronfa'n agor ar gyfer ceisiadau o ddydd Llun 24 Mehefin 2024 ymlaen a bydd yn cau i geisiadau am hanner dydd ddydd Llun 22 Gorffennaf 2024.

Bydd y cyfnod cyllido cymwys yn cynnwys y dyddiad cymeradwyo ar y llythyr cynnig tan 28 Chwefror 2025. Efallai y byddwn hefyd yn ystyried ychydig bach o wariant ar brosiectau sy'n ymestyn i flwyddyn ariannol 2025/26 ond mae'r gronfa hon yn canolbwyntio ar wariant prosiect yn 2024/25. **Ni dderbynnir unrhyw geisiadau hwyr.**

## Proses hawlio ac amodau'r gronfa

Bydd taliadau dyfarniad yn cael eu gwneud ar sail gwariant a dalwyd, sy'n golygu y bydd angen i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'r llif arian parod neu'r cronfeydd arian wrth gefn sydd ar gael i ariannu cyfanswm costau'r prosiect ar adeg cyflawni.  Bydd hawliadau ar gyfer elfen grant Llywodraeth Cymru yn cael eu talu ar ôl cyflawni'r prosiect h.y. ni wneir taliad ymlaen llaw.

## Amserlen Hawlio

Gofynnir i chi roi amserlen o'r taliadau wedi'u cynllunio ar gyfer y cyfnod cyllido cyflawn o ran eich prosiect rhwng mis Gorffennaf 2024 a mis Chwefror 2025. Mawrth fydd y dyddiad cau ar gyfer hawliad terfynol 2025.

## Talu a Monitro

- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, mae angen bodloni amodau talu fel y nodir yn amserlen y llythyr cynnig.
- **'Costau a Dalwyd'** yw costau nwyddau sy'n cael eu rhyddhau drwy daliad neu eu setlo fel arall gennych chi. Bydd angen tystiolaeth o daliadau ar gyfer pob sefydliad.
- Bydd ffurflenni hawlio'n cael eu hanfon ar gais a gellir eu cyflwyno dros e-bost i CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru.  Bydd angen i brosiect sy'n cael ei dalu mewn ôl-daliadau ddarparu tystiolaeth lawn cyn gwneud unrhyw daliadau. Bydd manylion yr hyn y mae angen i chi ei ddarparu yn ystod y cam hawlio yn cael eu cynnwys yn eich llythyr cynnig.
- Bydd y taliad yn cael ei wneud 4 diwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei gymeradwyo.

## Monitro ar ôl Cwblhau

Bydd cyflawniad yn erbyn allbynnau y cytunwyd arnynt yn parhau i gael ei gofnodi am hyd at 12 mis ar ôl cwblhau'r prosiect a bydd yn amod o'r cynnig grant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i werthuso llwyddiant y grant hwn ac mae'n bwriadu cynnal gwerthusiad mewnol o'r MRF2. Rhagwelir y bydd yr ymchwil hon yn archwilio gweithrediad ac effaith y gweithgareddau a gyflawnwyd. Bydd yn asesu i ba raddau y gellir priodoli'r allbynnau a'r canlyniadau'n uniongyrchol i weithgareddau'r cynllun ac yn archwilio a yw effeithiau ehangach a ragwelir neu na chawsant eu rhagweld wedi cael eu gwireddu.

Gall Llywodraeth Cymru neu drydydd parti sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru gysylltu â chi at ddibenion ymchwil a gwerthuso a/neu i roi adborth ar eich profiad o'r cynllun. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei dadansoddi a'i chyflwyno'n ddienw yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd.

## Ad-dalu'r Grant

Dylai ymgeiswyr nodi y gall Llywodraeth Cymru fynnu bod y grant yn cael ei ad-dalu'n llawn neu'n rhannol os nad yw'r arian yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a nodir ar y

ffurflen gais. Mae'r ymgeisydd yn ymrwymo i gytundeb, a bydd hyn yn cael ei orfodi drwy ofyn am brawf, ar ôl dyfarnu'r grant.

**Rheoli Cymhorthdal y DU**
Gwneir dyfarniadau o dan y gronfa yn unol â Threfn Isafswm Cymorth Ariannol (MFA) (Deddf Rheoli Cymhorthdal) (2022) a bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gadarnhau drwy ddatganiad wedi'i lofnodi, na fyddai unrhyw ddyfarniad a wneir o dan y gronfa hon yn fwy na £315,000 o gyfanswm y cymorth MFA a gronnir gan yr ymgeisydd/busnes dros y ddwy flynedd ariannol flaenorol.

Fel rhan o'ch cais, bydd angen i chi roi manylion unrhyw gyllid blaenorol y mae eich busnes wedi'i gael.

**Y Contract Economaidd**

**Addewidion Contract Economaidd a Gwaith Teg**

Mae'r Contract Economaidd yn ymrwymiad i ddarparu buddsoddiad cyhoeddus sy'n blaenoriaethu anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru ar yr un pryd ag adeiladu economi llesiant fwy cydnerth a ffyniannus. Wrth galon ein dull gweithredu Rhywbeth am Rywbeth, cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a busnes ar y camau y byddwn yn eu cymryd sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu ac at wella bywydau pobl ledled Cymru.

**<u>Cyhoeddusrwydd</u>**

Bydd angen i bob cais llwyddiannus sicrhau'r canlynol:

- Cytuno i gael ei gynnwys ym mhob cyhoeddusrwydd, datganiad i'r wasg a deunydd marchnata a gaiff eu llunio gennym.

- Fel amod o'r cyllid, byddwch yn cytuno i ymgymryd â hyd at 3 blynedd o gyhoeddusrwydd ar y cyd â Cymru Greadigol a gofynnir i chi ddarparu cronfa o ddelweddau a fideo, a hawliau perthnasol o'r prosiect i ni eu defnyddio yn y wasg a chyhoeddusrwydd. Dylid trafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â hyn gydag aelod o dîm Cymru Greadigol. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael gwybod a'u hysbysu cyn rhyddhau'r deunydd yn gyffredinol.

- Hoffem ychwanegu ein holl ymgeiswyr at ein cronfa ddata marchnata i sicrhau eich bod yn cael gwybodaeth amserol am opsiynau cymorth pellach gan Cymru Greadigol, ond nid yw hyn yn amod o gael cyllid.

- Bydd disgwyl hefyd y bydd ceisiadau llwyddiannus yn rhannu delweddau a deunyddiau hyrwyddo perthnasol gyda Cymru Greadigol er mwyn i ni eu defnyddio yn ôl yr angen.

**Y Gymraeg**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg. Mae'r diwydiannau creadigol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyfrannu at

flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a’r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y nodir yn Cymraeg 2050. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer prosiectau sy’n cefnogi ein huchelgeisiau ac yn manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo’r Gymraeg. Mae blaenoriaethau iaith Gymraeg yn un o ystod o feysydd y byddwn yn eu hystyried fel rhan o’n hasesiad o ffit strategol wrth adolygu prosiectau.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae amcanion y Ddeddf yn dangos sut y bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio i gyflawni’r weledigaeth ar gyfer Cymru a nodir yn y ‘nodau llesiant’. Mae’r saith nod llesiant yn dangos y math o Gymru rydyn ni eisiau ei gweld. Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i’r cyrff cyhoeddus a restrir weithio i gyflawni’r holl nodau, nid dim ond un neu ddau. Bydd cyfeiriad ac esboniad ynghylch sut mae eich prosiect yn cyflawni’r nodau hyn yn bwysig wrth asesu cais.

**Hysbysiad Preifatrwydd**

- Llywodraeth Cymru yw’r Rheolydd Data ar gyfer unrhyw wybodaeth rydych chi’n ei darparu. Mae manylion llawn ein polisi preifatrwydd ar gael ar y dudalen Hysbysiad Preifatrwydd.

Bydd yr wybodaeth a roddwch yn cefnogi’r gwaith o ddatblygu cronfa ddata busnes cerddoriaeth. A fyddech cystal â chadarnhau yn yr adran ar eich ffurflen gais eich bod yn fodlon bwrw ymlaen ar y sail hon er mwyn i chi allu parhau i gael cymorth a chyngor gan Lywodraeth Cymru.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen, deall a derbyn y 'Nodiadau Cyfarwyddyd' a'r 'Hysbysiad Preifatrwydd' cyn i chi ddechrau'r cais.

**Atodiad 1**

**Meini prawf cymhwysedd**

Yn y lle cyntaf, bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf cymhwysedd canlynol.

Bydd ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd yn cael eu gwrthod yn awtomatig ac ni fyddant yn symud ymlaen i'r cam gwerthuso.

<table>
<tr>
<td>Meini prawf cymhwysedd</td>
<td>
<ul>
<li>Rhaid i'r cais fod gan fusnes cerddoriaeth yng Nghymru – lle mai'r brif swyddogaeth yw gweithio ar gyhoeddi cerddoriaeth gan gerddorion Cymraeg neu yng Nghymru (ond lle nad yw'r genre cerddoriaeth sylfaenol yn glasurol neu'n jazz gan fod y rhain yn gelfyddyd â chymhorthdal);</li>
<li>Rhaid i'r prosiect gyfrannu'n uniongyrchol at ymgyrch cyhoeddi cerddoriaeth wedi'i recordio;</li>
</ul>
Rhaid i'r cais am gyllid fod yn gysylltiedig â phrosiect sy'n mynd tuag at wella rhagolygon masnachol busnes/hyrwyddwr/artist a bydd angen i'r cyllid refeniw cysylltiedig dalu am o leiaf un o'r categorïau canlynol:
<ul>
<li>Ymgyrchoedd cyhoeddiadau newydd</li>
<li>Hyrwyddo Cerddoriaeth fyw</li>
<li>Cysoni a Chatalogio Cerddoriaeth</li>
<li>Cerddoriaeth Gymraeg</li>
<li>Rhaid gwneud cais gan y busnes;</li>
<li>Nid yw busnesau sydd mewn perygl o gau yn gymwys i wneud cais;</li>
<li>Rhaid i ymgeiswyr fod wedi bod yn masnachu am o leiaf 12 mis.</li>
</ul>
Ni allwn gefnogi ceisiadau gan fandiau unigol. Ar ben hynny, dim ond y perchnogion sy'n gyfrifol am redeg y busnes fydd yn gymwys i wneud cais am y cyllid hwn.
<ul>
<li>Rhaid i ymgeiswyr fod yn gweithio yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru.</li>
<li>Rhaid i ymgeiswyr fod wedi'u lleoli yng Nghymru ac yn gweithredu yng Nghymru.</li>
<li>Rhaid i ymgeiswyr allu cyflwyno o leiaf blwyddyn o gyfrifon ardystiedig cwbl annibynnol neu ddatganiadau ariannol archwiliedig (nid oes angen i chi fod wedi cofrestru ar gyfer TAW os yw cyfanswm eich trosiant yn is na'r trothwy cofrestru).</li>
<li>Rhaid i'r busnes fod wedi bod yn masnachu cyn 1 Ebrill 2023 ac yn parhau i fasnachu (tystiolaeth o gyfrifon</li>
</ul>
</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | ariannol o'r cyfnod ariannol diwethaf) a bod ganddo drosiant blynyddol o dros £50,000 y flwyddyn.<br>• Os yw trosiant y busnes yn fwy na £90,000, rhaid i'r busnes fod wedi cofrestru ar gyfer TAW neu fod wedi'i eithrio rhag TAW. Mae manylion yr eithriad TAW ar gael yn:<br>***https://www.gov.uk/guidance/vat-exemption-and-partial-exemption*** |

## Atodiad 2

## Meini Prawf Gwerthuso

Bydd angen i brosiectau fodloni'r egwyddorion cyllido a ddisgrifir uchod er mwyn symud ymlaen i'r ail gam ar gyfer asesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

| *Meini Prawf Gwerthuo* | *Meini Prawf Gwerthuso* | *Sgôr* | *Pwysoliad* |
|---|---|---|---|
| 1 | **Cydweddiad Strategol**<br>• Cyd-fynd â'r egwyddorion cyllido cyffredinol<br>• A yw eich prosiect yn sicrhau'r manteision gorau i Gymru, gan gynnwys manteision economaidd<br>• A yw eich prosiect yn cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru<br>• Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, cyd-fynd â Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | /5 | 10 |
| 2 | **Ansawdd y prosiect**<br>• Ansawdd cyffredinol y cais<br>• Arloesi<br>• Amrywiaeth a chynhwysiant<br>• Cyhoeddusrwydd a marchnata<br>• Y Gymraeg<br><br>Sut bydd y prosiect yn mynd i'r afael ag Addewidion Contract Economaidd Llywodraeth Cymru. Gall y busnes ddangos yn glir yn ei gais sut mae'r busnes yn cyd-fynd ag o leiaf 2 o'r Addewidion Contractau Economaidd ac ymrwymo i gryfhau'r rhain ymhellach.<br><br>• Cryfder a Gallu i Addasu Economaidd<br>• Gwaith teg<br>• Hyrwyddo lles<br>• Carbon Isel a Gwrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd | /5 | 10 |
| 3. | **Tystiolaeth o Angen**<br>• Pam mae angen cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn bwrw ymlaen â'r prosiect hwn? E.e. Pam mae angen y cyllid arnoch chi? A fydd yn cyflymu'r prosiect? A fyddai'n digwydd heb gymorth?<br>• Effaith y prosiect ar y busnes<br>• Gall y busnes ddangos yn glir y manteision o ymgymryd â'r prosiect, a dangos yr effaith y bydd y prosiect yn ei chael ar hyfywedd y busnes yn y tymor byr neu ganolig (y 12 i 36 mis nesaf) | /5 | 5 |
| 4. | **Risgiau ar gyfer y prosiect a chyflawni**<br>Hyfywedd y prosiect a'r cynllun cyflawni<br>Mae naratif y prosiect yn disgrifio'r prosiect yn glir ac mae'n cynnwys cynllun realistig wedi'i ddogfennu sy'n cynnwys cerrig milltir ac yn nodi risgiau a mesurau lliniaru i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus erbyn 28 Chwefror 2025. | /5 | 10 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **5.** | **Cyflawniadau'r prosiect**<br>• Targedau ansawdd y prosiect:<br>• Allbynnau ac elfennau i'w cyflawni, a ddefnyddir i fesur llwyddiant y prosiect<br>• Gwybodaeth fanwl am sut bydd y rhain yn cael eu mesur | /5 | 10 |
| **6.** | **Costau'r Prosiect a Gwerth am Arian**<br>• Mae'r cynnig cyffredinol yn cynrychioli gwerth am arian<br>• Mae'r gweithgarwch a'r costau cysylltiedig yn cynrychioli gwerth gorau a realistig<br>• Costau'r prosiect, dyfynbrisiau<br>• Mae'r buddion disgwyliedig yn gymesur â'r costau<br>• Gallu cael effaith ar y sector dros gyfnod hwy o amser<br>• Hyfforddiant/Datblygiad proffesiynol parhaus | /5 | 5 |

Cyfanswm y sgôr uchaf o 250

**Matrics sgorio**

| Sgôr | Dangosydd | Gellir ei gyllido |
|---|---|---|
| 5 | Eithriadol – Roedd yr ymateb yn gadarn, yn fanwl, wedi'i esbonio'n dda ar bob agwedd o bwys gan ddarparu tystiolaeth gref y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni, heb unrhyw wendidau na meysydd sy'n peri pryder gyda'r cynnwys. | ☐ |
| 3 | Ansawdd uchel – Roedd yr ymateb yn cyflwyno tystiolaeth y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni, yn dda mewn sawl ffordd ond gyda mân wendidau neu bryderon ynghylch y cynnwys. | ☐ |
| 1* | Gwael – Roedd yr ymateb yn darparu tystiolaeth gyfyngedig y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni, roedd gwendidau mawr neu bryderon ynghylch y cynnwys. Roedd diffyg manylder/neu eglurder sylweddol yn yr ymateb. | ☐ |
| 0* | Annerbyniol – Nid oedd yr ymateb yn darparu tystiolaeth y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni; ac roedd yn gwbl anfoddhaol o ran cynnwys. Nodwyd gwendidau, problemau neu hepgoriadau mawr. Roedd yr ymateb wedi'i fynegi'n wael a/neu'n anghyson. | ☐ |

*Os byddwch yn cael sgôr o 1 neu 0 ar gyfer unrhyw gwestiwn, bydd eich cais yn cael ei wrthod.